# amserbeibl

## Storïau o'r Beibl – Safon 1



Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oed Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Storïau Beiblaidd o'r Hen Destament

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

## Stori 1 Jacob yn twyllo'i frawd



DARLLENWCH
Genesis 25: 27-34

*Mae'r stori yma'n sôn am:*
**Bod yn hunanol**

Roedd Esau a Jacob yn efeilliaid ond roedden nhw'n wahanol iawn i'w gilydd. Roedd Esau'n hoffi mynd allan i hela ac roedd Jacob yn hoffi aros gartref. Esau oedd ffefryn eu tad, Isaac, a Jacob oedd ffefryn eu mam, Rebeca.

**Ysgrifennwch yr enwau a lliwiwch y lluniau.**



**Roedd Isaac yn caru E __ __ __ ac roedd Rebeca'n caru J __ __ __ __,**



Gan mai Esau gafodd ei eni gyntaf, ef fyddai'n dod yn ben y teulu pan fyddai eu tad yn marw. Genedigaeth-fraint oedd enw hyn.
Un diwrnod, roedd Jacob yn gwneud cawl pan ddaeth Esau adref ar ôl bod yn hela. Roedd aroglau da ar y cawl!



"Rho gawl i mi. Dw i ar lwgu," meddai Esau. Roedd ar Jacob eisiau rhywbeth yn dâl am y cawl.
"Roddaf i gawl i ti os rhoddi di'r enedigaeth-fraint i mi," meddai Jacob.

Heb feddwl, cytunodd Esau i hynny. Roedd Jacob yn hunanol iawn. Roedd wedi twyllo Esau. Weithiau, fel Esau a Jacob, rydyn ni'n meddwl amdanon ni'n hunain yn lle meddwl am bobl eraill. Dydi Duw ddim yn hoffi hynny.



**Tynnwch lun sosban fawr ar y tân**